COFNOD O BENDERFYNIADAU CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR / O BELL DDYDD MAWRTH, 7 CHWEFROR 2023, AM 14:30 O'R GLOCH

Presennol

Y Cynghorydd – HJ David – Arweinydd/ Cadeirydd

Y Cynghorwyr

J Gebbie, J Spanswick, H Williams, JP Blundell, R Goode, N Farr

Swyddogion:

M Shephard, C Marchant, L Harvey, J Nightingale, K Watson, M Pitman, C Lord, R Keepins, N Chandrasena

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Dim

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Cabinet dyddiedig 17 Ionawr 2023.

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2023-24 i 2026-27 a Phroses Ymgynghori Ddrafft** |
| Y Penderfyniad Wnaed | Bod y Cabinet wedi ystyried argymhellion COSC mewn ymateb i'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig / Proses Ymgynghori'r Gyllideb Ddrafft ac wedi cadarnhau y byddai'n ymateb i'r rhain yn unol â hynny. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 7 Chwefror 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Rheoli'r Trysorlys – Adroddiad Chwarter 3 2022-23** |
| Y Penderfyniad Wnaed | Bod y Cabinet yn nodi gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor ar gyfer 2022-23 am y cyfnod o 1 Ebrill 2022 hyd 31 Rhagfyr 2022 a dangosyddion rhagamcanol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2022-23. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 7 Chwefror 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Canlyniad yr Ymgynghoriad 'Siapio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr' 2022** |
| Y Penderfyniad Wnaed | Bod y Cabinet yn nodi canlyniad yr ymgynghoriad â phartïon â diddordeb fel y manylwyd yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 7 Chwefror 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Cod Llywodraethu Corfforaethol** |
| Y Penderfyniad Wnaed | Bod y Cabinet wedi ystyried ac yn cymeradwyo'r Cod Llywodraethu Corfforaethol diwygiedig. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 7 Chwefror 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Cynllun Eiddo Gwag Cenedlaethol** |
| Y Penderfyniad Wnaed | Bod y Cabinet yn dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog, Cyllid, Perfformiad a Newid a'r Prif Swyddog Cyfreithiol, AD a Gwasanaethau Rheoleiddiol i:<br><br>• negodi a llunio cytundeb lefel gwasanaeth gyda Rhondda Cynon Taf fel yr awdurdod arweiniol ar gyfer y Cynllun Eiddo Gwag Cenedlaethol;<br>• cymeradwyo unrhyw estyniad neu ddiwygiad i'r cytundeb lefel gwasanaeth ac ymrwymo i unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy'n ategol i'r cytundeb lefel gwasanaeth. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 7 Chwefror 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Adolygiad o Bolisi Goruchwylio'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant** |
| Y Penderfyniad Wnaed | Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r ddau bolisi yn yr adroddiad hwn:<br><br>• Polisi goruchwylio staff a chanllawiau ymarfer: gweithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (atodiad 1).<br>• Polisi goruchwylio staff a chanllawiau ymarfer: Gwasanaethau Gofal Uniongyrchol Gweithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (atodiad 2) yn lle polisi Goruchwylio'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2018. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 7 Chwefror 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Adnewyddu Cytundeb Adran 33 ar gyfer Offer Cymunedol** |
| Y Penderfyniad Wnaed | Bod y Cabinet wedi ystyried cynnwys yr Adroddiad hwn ac wedi cytuno i wneud y canlynol:<br><br>• Adnewyddu Cytundeb Adran 33 ar gyfer darparu Offer Cymunedol;<br>• Cymeradwyo atal dros dro Reolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor o ran y gofyniad i gaffael yn gystadleuol y gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o dan y cytundeb;<br>• Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid a Swyddog Adran 151, a’r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol, i gytuno ar delerau terfynol y cytundeb Adran 33 diwygiedig ac ymrwymo i'r cytundeb hwnnw ar ran y Cyngor;<br>• Penodi Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol Integredig - CRT fel cynrychiolydd CBS Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Offer Cymunedol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 7 Chwefror 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Gwasanaeth a Reolir – Gwasanaethau Plant** |
| Y Penderfyniad Wnaed | Bod y Cabinet wedi cymeradwyo’r argymhellion canlynol:<br><br>• Parhau’r gwasanaeth a reolir gyda'r darparwr gwasanaeth presennol, sef Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Innovate;<br>• Atal dros dro y rhannau perthnasol o Reolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor mewn perthynas â'r gofyniad i ail-dendro'r contract arfaethedig; a<br>• Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid a Swyddog Adran 151, a Phrif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol, i ymrwymo i gontract ar gyfer y Gwasanaeth a Reolir am gyfnod o 12 mis o 18 Mawrth 2023, gyda’r |

| | |
|---|---|
| | dewis i ymestyn am ddau gyfnod pellach o 12 mis (uchafswm o 3 blynedd) cyn belled â bod gweithredu unrhyw estyniad o'r fath yn amodol ar gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Cabinet/Bwrdd Rheoli Corfforaethol ac ymgynghoriad â Chadeiryddion Craffu |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 7 Chwefror 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Y Cynghorydd John Spanswick – Buddiant rhagfarnus – Mynd allan o'r cyfarfod |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Penodi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol** |
| Y Penderfyniad Wnaed | Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r penodiadau y manylwyd arnynt ym mharagraff 4.1 a 4.2 yr adroddiad ar yr amod bod yr apwyntiad ym mharagraff 4.1 yn cael ei ddileu gan fod yr hysbyseb hon yn ganlyniad camgymeriad gweinyddol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 7 Chwefror 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Y Cynghorydd Jon-Paul Blundell – Buddiant rhagfarnus – Mynd allan o'r cyfarfod |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Polisi Derbyn i Ysgolion 2024-2025** |
| Y Penderfyniad Wnaed | Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi Derbyn i Ysgolion 2024-2025 (gweler Atodiad A); a'r cynnydd ffurfiol yn y PAN ar gyfer Ysgol Gynradd Caerau o 45 i 60, gan gydnabod bod y cynnydd wedi cael ei weithredu yn ymarferol ers nifer o flynyddoedd tra'n ystyried yr effaith negyddol bosibl a nodwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg amgaeëdig (Atodiad B). |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 7 Chwefror 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim. |